MARS service disruption: frequently asked questions

System availability and security

1. Why is MARS unavailable?

MARS Medical, MARS GP and the MARS Help & Support website were taken offline as a precaution following a global cyber security issue identified on 22 October 2026. Our Digital and Cyber Security teams are working to ensure the systems can be restored safely and securely.

We recognise the disruption this is causing and thank you for your patience.

2. Has my information been compromised?

There is no evidence that HEIW systems or data have been compromised. Taking the systems offline was a precautionary measure to protect users' information.

3. When will I be able to access MARS again?

We currently anticipate that access to MARS will be restored from week commencing **23 November 2026**, provided the remaining technical work progresses as planned.

This is an anticipated date, not a confirmed reopening date. We will let users know when access is restored and communicate any changes to the expected timescale.

4. Does this mean appraisal meetings will restart on 23 November?

No. Although system access is anticipated from week commencing **23 November**, routine appraisal meetings are planned to restart from **30 November 2026**, subject to confirmation. A routine appraisal is a non-urgent appraisal for a doctor whose revalidation date is not due by the end of 2026.

This preparation period will allow appraisees to complete and upload their information and appraisers to review it before meetings take place. Appraisals will not all take place as soon as routine meetings restart; each meeting must allow enough time for preparation.

Your appraisal

5. What happens if my appraisal is booked before 30 November?

Routine appraisals booked before **30 November 2026** will need to be postponed and rearranged, unless an exceptional arrangement has been agreed with your Appraiser and local revalidation team.

If your meeting is booked for **23–29 November**, please do not assume it can proceed simply because system access may have been restored. This period is intended to support preparation ahead of the planned restart of routine appraisals.

6. Can an appraisal go ahead while MARS is unavailable?

In limited circumstances, an appraisal may be able to proceed where:

- The appraiser downloaded the appraisee's **full appraisal information** before MARS became unavailable.
- The appraiser has sufficient information to undertake the appraisal to the same standard as they would with access to MARS.
- The appraisee has access to the supporting information needed for the discussion and is content for the meeting to proceed.

An appraiser's brief notes or preparation alone are not sufficient. If an Appraiser is unsure whether you have sufficient information to proceed with the meeting, speak to your local Appraisal Lead / GP Appraisal Coordinator.

If the appraisee would prefer not to proceed, this should be respected and the meeting should remain postponed.

Where a meeting proceeds, the appraisal summary must be completed in MARS once access is restored.

7. Who will rearrange my appraisal?

For **GP appraisals**, your appraiser will contact you to agree a new date . Dates can be discussed outside MARS while the system is unavailable, but arrangements should take account of the anticipated restoration date and planned restart of routine appraisals.

For **Medical MARS appraisals**, please follow the arrangements communicated by your local revalidation team.

Meeting details must be updated in MARS once access is restored.

8. How will postponed appraisals be prioritised?

Priority should be given to doctors with **imminent revalidation dates**.

If you are concerned about the timing of your GP appraisal, please contact the RSU Appraisal Support Officer via - HEIW.AppraisalOfficer@wales.nhs.uk

For all other appraisals, please contact your local revalidation team.

9. Should I continue preparing while MARS is offline?

Yes. Please continue preparing where possible and **securely save or collate the supporting information, reflections and documentation** you intend to add to your appraisal folder.

Having this ready to upload when access is restored will help you and your appraiser prepare for your rearranged meeting. Please continue to follow your organisation's information governance requirements when storing or handling appraisal information.

10. What if my appraisal folder enters lockout during the outage?

You may reach the normal lockout point while MARS is unavailable, or find that your folder is locked when access returns.

Please continue to prepare and securely retain the information you want to add. Once MARS is available, contact your appraiser about reopening your folder so you can upload the outstanding information.

You and your appraiser should agree sufficient time for you to complete your folder and for your appraiser to review it before the rearranged meeting.

11. Will the usual preparation period automatically be shortened?

Please do not assume that preparation requirements have changed. The anticipated reopening of MARS does not remove the need for a properly prepared appraisal.

Agree a realistic meeting date with your appraiser, allowing time to upload outstanding information, address any lockout issues and review the completed folder. From 1st December, all appraisals should be undertaken as per standard appraisal timescales.

Revalidation

15. My revalidation date is approaching. What should I do?

Please contact your **local revalidation team in the first instance**, particularly if a postponed appraisal or lack of access to MARS may affect an upcoming recommendation.

Your team can review your circumstances and advise on the appropriate next steps. Please do not assume that your revalidation date has changed or that a deferral will automatically be required.

16. Can revalidation recommendations still be made while MARS is offline?

The Revalidation Support Unit is developing arrangements to support Responsible Officers using limited appraisal records held as at **22 October 2026 on MARS**.

The proposed support includes securely providing relevant appraisal summaries from the doctor's current revalidation cycle and a revalidation scorecard. A Responsible Officer would need to be satisfied that they have sufficient information to make a recommendation.

Further details will be communicated directly to Responsible Officers and revalidation teams. Please contact your local revalidation team should you have any queries regarding your individual circumstances.

17. Why does revalidation planning cover doctors due up to 31 December?

The proposed support covers doctors due for revalidation between **22 October and 31 December 2026** because some designated bodies review cases and prepare recommendations ahead of the actual revalidation date (while doctors are 'under notice').

This does not mean MARS is expected to remain unavailable until the end of December.

18. What if my revalidation recommendation has already been deferred?

Your local revalidation team will be aware of any previous deferral and will be in contact with you. The proposed support arrangements aim to prioritise doctors who have already been deferred, where access to appraisal records would help avoid a further deferral caused solely by the outage.

This does not guarantee a recommendation; the Responsible Officer must still have the information required.

Orbit360 and further updates

19. Can I still use Orbit360?

The Orbit360 application remains available and the FAQ site is now back online.

20. How will I receive further updates?

We will continue to contact users as work progresses, including confirmation of restored access, any changes to anticipated dates and further guidance on appraisal arrangements.

Please wait for confirmation that MARS is available before attempting to resume activity.

21. Who should I contact if I need help?

GP appraisal support - HEIW.AppraisalOfficer@wales.nhs.uk

MARS Service Desk - HEIW.MARS@wales.nhs.uk

Designated Body	Email Address
Aneurin Bevan UHB	Linda.coe@wales.nhs.uk Sarah.Davies50@wales.nhs.uk caroline.newman@wales.nhs.uk
Betsi Cadwaladr UHB	Valerie.Morris@wales.nhs.uk Vicky.Lewis7@wales.nhs.uk
Cardiff and Vale UHB	CAV.Revalidation@wales.nhs.uk Jane.Robson@wales.nhs.uk
Cwm Taf Morgannwg UHB	CTM_Revalidation@wales.nhs.uk
Hywel Dda UHB	Debbie.Stone2@wales.nhs.uk Alexander.Nash@wales.nhs.uk
Powys Teaching Health Board	Revalidation.Med.Powys@wales.nhs.uk hayley.hughes6@wales.nhs.uk
Public Health Wales	Phw.omd@wales.nhs.uk
Swansea Bay UHB	Sharon.Penhale@wales.nhs.uk Alison.Hughes11@wales.nhs.uk Sallyanne.jones@wales.nhs.uk
Velindre NHS Trust	velindrerevalidation@wales.nhs.uk Shauni.morgan2@wales.nhs.uk
DVLA	Sian.Taylor@dvla.gov.uk

Argaeledd a diogelwch y system

1. Pam nad yw MARS ar gael?

Cafodd MARS Medical, MARS GP a gwefan Cymorth a Chefnogaeth MARS eu tynnu oddi ar-lein fel mesur rhagofalus yn dilyn problem seiberddiogelwch fyd-eang a nodwyd ar 22 Hydref 2026. Mae ein timau Digidol a Seiberddiogelwch yn gweithio i sicrhau y gellir adfer y systemau mewn modd diogel a sicr.

Rydym yn cydnabod yr aflonyddwch y mae hyn yn ei achosi ac yn diolch i chi am eich amynedd.

2. A effeithiwyd ar ddiogelwch fy ngwybodaeth?

Nid oes tystiolaeth bod diogelwch systemau na data AaGIC wedi'i beryglu. Mesur rhagofalus i ddiogelu gwybodaeth defnyddwyr oedd tynnu'r systemau oddi ar-lein.

3. Pryd y byddaf yn gallu defnyddio MARS eto?

Ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld y bydd mynediad at MARS yn cael ei adfer o'r wythnos sy'n dechrau ar **23 Tachwedd 2026**, ar yr amod bod gweddill y gwaith technegol yn mynd rhagddo yn ôl y bwriad.

Dyddiad a ragwelir yw hwn, nid dyddiad ailagor sydd wedi'i gadarnhau. Byddwn yn rhoi gwybod i ddefnyddwyr pan fydd mynediad wedi'i adfer ac yn eu hysbysu am unrhyw newidiadau i'r amserlen ddisgwyliedig.

4. A yw hyn yn golygu y bydd cyfarfodydd arfarnu'n ailddechrau ar 23 Tachwedd?

Nac ydy. Er y rhagwelir y bydd mynediad at y system ar gael o'r wythnos sy'n dechrau ar **23 Tachwedd**, y bwriad yw i gyfarfodydd arfarnu arferol ailddechrau o **30 Tachwedd 2026**, yn amodol ar gadarnhad. Arfarniad nad yw'n un brys yw arfarniad arferol, ar gyfer meddyg nad yw ei ddyddiad ailddilysu yn ddyledus erbyn diwedd 2026.

Bydd y cyfnod paratoi hwn yn caniatáu i'r rhai sy'n cael eu harfarnu gwblhau a lanlwytho eu gwybodaeth ac i arfarnwyr ei hadolygu cyn i'r cyfarfodydd gael eu cynnal. Ni fydd pob arfarniad yn digwydd cyn gynted ag y bydd cyfarfodydd arferol yn ailddechrau; rhaid caniatáu digon o amser i baratoi ar gyfer pob cyfarfod.

Eich arfarniad

5. Beth fydd yn digwydd os yw fy arfarniad wedi'i drefnu cyn 30 Tachwedd?

Bydd angen gohirio ac aildrefnu arfarniadau arferol sydd wedi'u trefnu cyn **30 Tachwedd 2026**, oni bai bod trefniant eithriadol wedi'i gytuno gyda'ch arfarnwr.

Os yw eich cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer **23–29 Tachwedd**, peidiwch â chymryd yn ganiataol y gall fynd rhagddo dim ond am fod mynediad at y system wedi'i adfer o

bosibl. Bwriad y cyfnod hwn yw cefnogi'r gwaith paratoi cyn i arfarniadau arferol ailddechrau yn ôl y bwriad.

6. A all arfarniad fynd rhagddo tra nad yw MARS ar gael?

Mewn amgylchiadau cyfyngedig, efallai y bydd modd i arfarniad fynd rhagddo os:

- Lawrlwythodd yr arfarnwr **wybodaeth arfarnu lawn** yr unigolyn sy'n cael ei arfarnu cyn i MARS ddod yn anhygyrch.
- Mae gan yr arfarnwr ddigon o wybodaeth i gynnal yr arfarniad i'r un safon ag y byddai gyda mynediad at MARS.
- Mae gan yr unigolyn sy'n cael ei arfarnu fynediad at y wybodaeth ategol sydd ei hangen ar gyfer y drafodaeth ac mae'n fodlon i'r cyfarfod fynd rhagddo.

Nid yw nodiadau byr neu waith paratoi'r arfarnwr yn unig yn ddigonol. Os yw arfarnwr yn ansicr a oes digon o wybodaeth i fwrw ymlaen â'r cyfarfod, dylai siarad â'i Arweinydd Arfarnu / Cydlynydd Arfarnu Meddygon Teulu lleol.

Os byddai'n well gan yr unigolyn sy'n cael ei arfarnu beidio â bwrw ymlaen, dylid parchu hyn a dylid cadw'r cyfarfod wedi'i ohirio.

Pan fydd cyfarfod yn mynd rhagddo, rhaid cwblhau crynodeb yr arfarniad yn MARS unwaith y bydd mynediad wedi'i adfer.

7. Pwy fydd yn aildrefnu fy arfarniad?

Ar gyfer **arfarniadau meddygon teulu**, bydd eich arfarnwr yn cysylltu â chi i gytuno ar ddyddiad newydd. Gellir trafod dyddiadau y tu allan i MARS tra nad yw'r system ar gael, ond dylai'r trefniadau ystyried y dyddiad adfer a ragwelir a'r bwriad i ailddechrau arfarniadau arferol.

Ar gyfer **arfarniadau Medical MARS**, dilynwch y trefniadau y mae eich tîm ailddilysu lleol wedi rhoi gwybod i chi amdanynt.

Rhaid diweddaru manylion y cyfarfod yn MARS unwaith y bydd mynediad wedi'i adfer.

8. Sut y bydd arfarniadau sydd wedi'u gohirio yn cael eu blaenoriaethu?

Dylid rhoi blaenoriaeth i feddygon y mae eu **dyddiadau ailddilysu ar fin cyrraedd**.

Os ydych yn poeni am amseriad eich arfarniad fel meddyg teulu, cysylltwch â Swyddog Cymorth Arfarnu'r Uned Cymorth Ailddilysu drwy - HEIW.AppraisalOfficer@wales.nhs.uk

Ar gyfer pob arfarniad arall, cysylltwch â'ch tîm ailddilysu lleol.

9. A ddylwn i barhau i baratoi tra bod MARS oddi ar-lein?

Dylech. Lle bo modd, parhewch i baratoi. **Cadwch neu gasglwch yn ddiogel y wybodaeth ategol, y myfyrdodau a'r dogfennau** yr ydych yn bwriadu eu hychwanegu at eich ffolder arfarnu.

Bydd cael y rhain yn barod i'w lanlwytho pan fydd mynediad wedi'i adfer yn eich helpu chi a'ch arfarnwr i baratoi ar gyfer eich cyfarfod sydd wedi'i aildrefnu. Parhewch i ddilyn gofynion llywodraethu gwybodaeth eich sefydliad wrth storio neu drin gwybodaeth arfarnu.

10. Beth os bydd fy ffolder arfarnu'n cael ei chloi yn ystod y cyfnod pan nad yw'r system ar gael?

Efallai y byddwch yn cyrraedd y pwynt cloi arferol tra nad yw MARS ar gael, neu'n gweld bod eich ffolder wedi'i chloi pan fydd mynediad yn dychwelyd.

Parhewch i baratoi a chadw'n ddiogel y wybodaeth yr ydych am ei hychwanegu. Unwaith y bydd MARS ar gael, cysylltwch â'ch arfarnwr ynghylch ailagor eich ffolder er mwyn i chi allu lanlwytho'r wybodaeth sy'n weddill.

Dylech chi a'ch arfarnwr gytuno ar ddigon o amser i chi gwblhau eich ffolder ac i'ch arfarnwr ei hadolygu cyn y cyfarfod sydd wedi'i aildrefnu.

11. A fydd y cyfnod paratoi arferol yn cael ei fyrhau'n awtomatig?

Peidiwch â chymryd yn ganiataol bod y gofynion paratoi wedi newid. Nid yw'r dyddiad ailagor a ragwelir ar gyfer MARS yn dileu'r angen i baratoi'n briodol ar gyfer arfarniad.

Cytunwch ar ddyddiad realistig ar gyfer y cyfarfod gyda'ch arfarnwr, gan ganiatáu amser i lanlwytho'r wybodaeth sy'n weddill, datrys unrhyw broblemau cloi ac adolygu'r ffolder wedi'i chwblhau. O 1 Rhagfyr, dylid cynnal pob arfarniad yn unol â'r amserlenni arfarnu safonol.

Ailddilysu

15. Mae fy nyddiad ailddilysu'n agosáu. Beth ddylwn i ei wneud?

Cysylltwch â'ch **tîm ailddilysu lleol yn y lle cyntaf**, yn enwedig os gall arfarniad sydd wedi'i ohirio neu ddiffyg mynediad at MARS effeithio ar argymhelliad sydd ar ddod.

Gall eich tîm adolygu eich amgylchiadau a rhoi cyngor ar y camau nesaf priodol. Peidiwch â chymryd yn ganiataol bod eich dyddiad ailddilysu wedi newid neu y bydd angen gohiriad yn awtomatig.

16. A ellir parhau i wneud argymhellion ailddilysu tra bod MARS oddi ar-lein?

Mae'r Uned Cymorth Ailddilysu yn datblygu trefniadau i gefnogi Swyddogion Cyfrifol gan ddefnyddio'r cofnodion arfarnu cyfyngedig a oedd ar **MARS ar 22 Hydref 2026**.

Mae'r cymorth arfaethedig yn cynnwys darparu'n ddiogel grynodebau arfarnu perthnasol o gylch ailddilysu presennol y meddyg a cherdyn sgorio ailddilysu. Byddai angen i Swyddog Cyfrifol fod yn fodlon bod ganddo ddigon o wybodaeth i wneud argymhelliad.

Bydd rhagor o fanylion yn cael eu rhannu'n uniongyrchol â Swyddogion Cyfrifol a thimau ailddilysu. Cysylltwch â'ch tîm ailddilysu lleol os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch eich amgylchiadau unigol.

17. Pam mae'r cynlluniau ailddilysu'n cynnwys meddygon sydd i fod i ailddilysu hyd at 31 Rhagfyr?

Mae'r cymorth arfaethedig yn cynnwys meddygon sydd i fod i ailddilysu rhwng **22 Hydref a 31 Rhagfyr 2026** oherwydd bod rhai cyrff dynodedig yn adolygu achosion ac yn paratoi argymhellion cyn y dyddiad ailddilysu gwirioneddol (tra bod meddygon yn eu cyfnod hysbysiad).

Nid yw hyn yn golygu y disgwylir i MARS barhau'n anhygyrch tan ddiwedd mis Rhagfyr.

18. Beth os yw fy argymhelliad ailddilysu eisoes wedi'i ohirio?

Bydd eich tîm ailddilysu lleol yn ymwybodol o unrhyw ohiriad blaenorol ac yn cysylltu â chi. Nod y trefniadau cymorth arfaethedig yw blaenoriaethu meddygon y mae eu hargymhelliad eisoes wedi'i ohirio, lle byddai mynediad at gofnodion arfarnu yn helpu i osgoi gohiriad pellach a achosir yn unig gan y ffaith nad yw'r system ar gael.

Nid yw hyn yn gwarantu argymhelliad; rhaid i'r Swyddog Cyfrifol barhau i fod â'r wybodaeth ofynnol.

Orbit360 a diweddariadau pellach

19. A allaf barhau i ddefnyddio Orbit360?

Mae rhaglen Orbit360 yn parhau i fod ar gael ac mae'r wefan cwestiynau cyffredin bellach yn ôl ar-lein.

20. Sut y byddaf yn derbyn diweddariadau pellach?

Byddwn yn parhau i gysylltu â defnyddwyr wrth i'r gwaith fynd rhagddo, gan gynnwys cadarnhau bod mynediad wedi'i adfer, unrhyw newidiadau i'r dyddiadau a ragwelir a chanllawiau pellach ar drefniadau arfarnu.

Arhoswch am gadarnhad bod MARS ar gael cyn ceisio ailddechrau gweithgarwch.

21. Â phwy ddylwn i gysylltu os oes angen cymorth arnaf?

Cymorth arfarnu meddygon teulu - HEIW.AppraisalOfficer@wales.nhs.uk

Desg Wasanaeth MARS - HEIW.MARS@wales.nhs.uk

Corff Dynodedig	Cyfeiriad E-bost
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Linda.coe@wales.nhs.uk Sarah.Davies50@wales.nhs.uk caroline.newman@wales.nhs.uk
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Valerie.Morris@wales.nhs.uk Vicky.Lewis7@wales.nhs.uk
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	CAV.Revalidation@wales.nhs.uk Jane.Robson@wales.nhs.uk
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	CTM_Revalidation@wales.nhs.uk
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Debbie.Stone2@wales.nhs.uk Alexander.Nash@wales.nhs.uk
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Revalidation.Med.Powys@wales.nhs.uk hayley.hughes6@wales.nhs.uk
Iechyd Cyhoeddus Cymru	Phw.omd@wales.nhs.uk
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	Sharon.Penhale@wales.nhs.uk Alison.Hughes11@wales.nhs.uk Sallyanne.jones@wales.nhs.uk
Ymddiriedolaeth GIG Felindre	velindrerevalidation@wales.nhs.uk Shauni.morgan2@wales.nhs.uk
DVLA	Sian.Taylor@dvla.gov.uk